tafod elái

CHWEFROR 2015

Rhif 294

Pris 80c

Adfer Arwyddion Cymraeg

Mae rhai o drigolion Pontypridd wedi bod yn brwydro i gael enwau gwreiddiol strydoedd yr ardal yn ôl ar yr arwyddion ffyrdd.

Pan adeiladwyd tai ardal y Trallwng roedd perchennog y tir, Argwlyddes Llanofer, am sicrhau fod enwau'r strydoedd yn Gymraeg, a hynny sy'n ymddangos ar hen fapiau o'r ardal. Ond dros y blynyddoedd mabwysiadwyd yr enwau Saesneg a diflannodd yr enw olaf wrth i'r Swyddfa Bost leol gau a chael ei haddasu yn fferyllfa. Bu Colin Gregory ar y ffôn ac yn gohebu gyda Chyngor Sir Rhondda Cynon Taf a fu'n gyfrifol am godi arwydd uniaith Saesneg dwy flynedd yn ôl. Ni dderbyniwyd ateb boddhaol a dywedodd swyddog y Cyngor nad oedd digon o le ar arwyddion i gynnwys y Gymraeg.

Yna bu'n cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg i bwyso ar y Cyngor i adfer enw Heol y Gorllewin. Trafodwyd y gŵyn gan Bwyllgor Llywio y Gymraeg y Cyngor ac yn dilyn pwyso pellach penderfynodd y Cyngor osod arwydd newydd dwyieithog. Daeth y newyddion cyn y Nadolig ac nawr mae'r arwydd wedi ei osod.

Mae'r ymgyrchwyr wedi danfon neges o ddiolch i Gomisiynydd y Gymraeg am ymyrryd a phwyso ar y Cyngor i weithredu eu Cynllun Iaith. "Hyfryd yw gweld yr enw Cymraeg" meddai John Evans, un o'r ymgyrchywr.

Nawr bydd pwyso pellach i sicrhau fod holl arwyddion yr ardal yn ddwyieithog.

Colin Gregory, Wil Morus Jones, Ron Evans a John Evans

Academi Microsoft

Mae Ysgol Llanhari yn brysur ennill ei phlwyf fel academi Microsoft o fewn Rhondda Cynon Taf ac mae'r disgyblion ac athrawon yn derbyn canmoliaeth arbennig am eu gwaith. Ar ddiwedd Tymor y Nadolig ymwelodd disgyblion MOS â Phencadlys Microsoft yn Reading i gystadlu yng nghystadleuaeth Rhondda Cynon Taf. Allan o'r 30 disgybl gorau yn y Sir, roedd 19 ohonynt yn dod o Lanhari ac ar y diwrnod, enillodd disgyblion Llanhari 5 allan o'r 9 gwobr oedd ar gael. Yn ychwanegol i'r llwyddiant yma, gwahoddwyd y disgyblion i gyfrannu i gynhadledd arbennig yng Ngwesty y Fro yn ystod mis Ionawr. Canmolwyd Beca Ellis, Rhys Rubery, Llew Lloyd a Morgan McCarthy am eu cyflwyniadau safonol a graenus ac fe amlygwyd i Benaethiaid ysgolion y Sir a chynrychiolwyr o gwmni Microsoft sut y mae defnyddio y feddalwedd yn codi safonau gwaith digidol y disgyblion, a hyn oll o dan arweinaid Mr Paul Greene, Arweinydd Pwnc TGCh.

Cystadleuaeth WWF

Brynhawn Mercher, 14 Ionawr, cawsom ein gwahodd i ddigwyddiad arbennig yn y Senedd. Dechreuodd yr hanes yn ystod yr Haf, pan lansiwyd cystadleuaeth gan y WWF i bobl Cymru ddangos llun yn lleisio eu dymuniad ar gyfer dyfodol cynaliadwy ac i amddiffyn llecynnau gwyllt y wlad, hyn i gyd trwy Drydar neu Facebook. Mae'r ymgyrch yn cyd fynd hefo penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i lunio cyfraith newydd. Gallai'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Datblygu Cynaliadwy) wneud i'r llywodraeth a'r holl sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd maent yn gweithio, gan leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Penderfynais i yrru llun fy merch Elliw (trwy Twitter) yn sefyll ynghanol coedlan fach leol, hefo'r dymuniad, "y bydd hi'n gallu sefyll yn yr un fan mewn ugain mlynedd, a'r safle hyfryd hwn heb newid dim". Heb feddwl llawer amdano ymhellach, a gyda chryn dipyn o sioc, cafodd y llun ei ddewis fel un o'r rhai buddugol, gan gynnwys gwahoddiad arbennig i'r Senedd yng Nghaerdydd. Yno, cawsom weld lluniau a dymuniadau Cymry eraill, a chyfle i gyfarfod aelodau seneddol sy'n ymgyrchu ar ran yr amgylchedd a'r Bil newydd. Yno hefyd, roedd pennaeth WWF Cymru i gyfarch y gwesteion a'r enillwyr. I orffen y dydd cyflwynwyd llyfryn i bawb gan yr AS William Powell hefo copi o'r dymuniadau buddugol.

Hoffwn ddiolch i Ruth Bates WWF a phawb arall ynghlwm â'r ymgyrch a diwrnod arbennig i Elliw a minnau.

Adroddiad Mr Mark Porter (Athro Bioleg)
Ysgol Gyfun Garth Olwg

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Mr Siôn Williams, Dosbarth 12, ar ei briodas gyda Beth ar Ragfyr y 30ain. Hoffai'r plant a'r staff i gyd ddymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Tripiau
Nôl ym mis Rhagfyr, fe aeth disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 i weld perfformiad o'r sioe "Yr Hwyaden Fach Hyll" yn Theatr y Sherman, Caerdydd. Hefyd, fe fu Blynyddoedd 3 a 4 ar ymweliad ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, er mwyn cymryd rhan mewn gweithdai celf yn seiliedig ar Artes Mundi.

Poster
Llongyfarchiadau i Carys James o Ddosbarth 11 am ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth llunio poster ar gyfer Ras Galan eleni. Roedd y poster yn hyfryd a lliwgar ac yn dangos Guto Nyth Bran yn rhedeg fel y gwynt!

CD y Côr
Mae CD y Côr nawr ar gael ar iTunes, felly os nad ydych wedi prynu copi, gallwch lawrlwytho'r caneuon o hyn ymlaen.

Panto
Ar yr 16eg o Ionawr fe aeth dros 200 o ddisgyblion a staff yr Adran Iau i Neuadd Goffa'r Barri i weld perfformiad o'r panto "Patagonia" gan Gwmni Theatr Mega. Cafwyd amser ardderchog ac fe roddodd bron pawb deg allan o ddeg i'r sioe.

Chwaraeon
Ar Ionawr y 14eg, fe aeth wyth o ferched Blwyddyn 6 i Ganolfan Hamdden Rhondda Fach i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Fe chwaraeon nhw chwech o gemau, gan ennill pump ohonynt. Fe ddaethon nhw'n drydydd yn y gystadeuaeth gan ennill medal efydd yr un.

Da iawn chi ferched!

Hefyd ar yr 22ain o Ionawr fe aeth tîm cyfnewid cymysg Merched Blynyddoedd 3 a 4 i gystadlu yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Aelodau'r tîm oedd Cerys Hulse, Faith Thomas, Charlotte Simcock ac Anya Elias.

Artistiaid dawnus y Gwaelod!

Falle y cofiwch i ni sôn cyn 'Dolig am y bwriad o roi sylw i grefftwyr ac artistiaid y Gwaelod yn eu tro - wel, dyma gychwyn y gyfres gyda 'chydig o hanes yr arlunydd dawnus Paula Jones.

Ces i fy ngeni yn nhŷ fy mam-gu ar Ynys y Barri. Ro'n i'n byw yn y Barri tan i fi fod yn ddeuddeg a hanner mlwydd oed. Yna oherwydd natur gwaith fy nhad, symudon ni i Swydd Amwythig ac wedyn i Swydd Caerhirfryn. Ym 1967 symudon ni 'nôl i Gymru i fyw ym Mhenybont. Ces i swydd yn adran gyllid y Bathdy Brenhinol, a dyna ble cwrddais i fy ngŵr Brenig. Priodon ni ym 1971 ac aethon ni yn ôl i'w bentref gwreiddiol ef i fyw, sef Y Maerdy yn y Rhondda Fach. Fe gafodd Owen ein mab ei eni ym 1975. Erbyn hyn mae e'n briod â Sarah gyda dau blentyn ei hunan sef William ac Emily. Yn anffodus bu farw Brenig yn 2010 a thua dwy flynedd yn ôl penderfynais i symud yn nes at Owen a'i deulu a nawr dw i'n byw yng Ngwaelod y Garth.

Dw i wastad wedi mwynhau tynnu lluniau ac yn cofio treulio llawer o'm plentyndod gyda phapur a phensil. Wnes i ddim byd ffurfiol tan 2001 pan ymunais â dosbarth nos paentio dyfrlliw yn yr ysgol leol. Mwynheuais i cymaint, es i ymlaen i ymuno â dosbarthiadau eraill ac wedyn tua naw mlynedd yn ôl des i yn aelod o Gymdeithas Celf Ystradyfodfwg yn Nhreorci. Dyfrlliw ydy fy hoff 'medium'

neu 'pen a wash' ond dw i wedi ceisio sawl llun 'acrylic' (dim ond 4) ac yn ddiweddar wedi mynychu gweithdy 'pastel' (sialc). Dw i'n paentio er mwyn pleser i fi fy hunan, a byddaf yn ceisio pob math o luniau. Tirweddau yw'r rhan fywaf o'm gwaith gyda rhyw fath o adeilad ynddynt, ond dw i wedi gwneud y môr, anifeiliaid, blodau, portreadau a 'still life'. Ces i hyfforddiant gan sawl arlunydd yn cynnwys David Williams (Tŷ Model, Llantrisant), Mohammed Hamza, a Sharon Green a gwnes fynychu gweithdai o dan ofal William Wheeler ac ar hyn o bryd gydag Arnold Lowrey.

Dw i wedi bod yn arddangos fy ngwaith ers 2003, yn gyntaf yn Ferndale. Dw i wedi arddangos a gwerthu yn Nhrehafod am tua pum mlynedd yn olynol, ac yn ddigon ffodus ym 2007 i fod yn y pymtheg terfynol, gyda llun o'r enw 'Misty Wood'.

Yn 2009 cymerais i ran mewn cystadleuaeth Cerdyn Post, Bockingford, (dros Brydain Fawr). Roedd dros 1000 o geisiadau ond eto yn ffodus iawn ces fy newis yn un o'r cant terfynol. Fel rhan o'r wobr roedd y cant o gardiau post wedi eu harddangos yn y R K Burt Gallery yn Llundain. Aeth Brenig a fi lan i'w gweld, wrth gwrs!

Ers i fi symud i Waelod y Garth dw i wedi cymryd rhan yn Ffair Grefftau'r pentref. Mae cymaint o bobl talentog yma - mae'n anhygoel. Mae rhai o fy lluniau wedi eu gwerthu i bobl yn Swydd Efrog, Swydd Amwythig, Henffordd, Ceredigion, Gogledd Cymru, Boston America, Canada ac Iwerddon, yn ogystal â De Cymru. Nid oes safle we gen i, ond os oes diddordeb cysylltwch â fi ar 02921 328213

Ysgol Creigiau

Pobi bara Celtaidd

Mae'r tymor newydd wedi dechrau gyda bwrlwm! Mae thema newydd gan pob dosbarth a nifer o ddosbarthiadau eisioes wedi bod yn rhan o weithdai diddorol. Fe ddaeth Wil y Celt i siarad am fywyd yn Oes y Celtiaid gyda dosbarthiadau 3 a 6. Fe ddysgwyd nifer o ffeithiau hynod ddiddorol yn ystod y dydd gan gynnwys sut i gynnau tân!! Cafodd pob un hefyd gyfle i bobi bara Celtaidd! Roedd yna le!

Fe ddaeth Harri Tudur ei hun i ymweld â Dosbarth 4! Yna, rhai dyddiau'n ddiweddarach, fe ddaeth y rhyfelwraig Buddug i ymweld â Dosbarthiadau 3 a 6! Cafwyd amser da yn eu cwmni.

Croeso cynnes iawn i Ieuan, Trystan, Sionedd a Lucy. Mae Ieuan a Lucy wedi ymuno â Dosbarth 5, tra bo Trystan wedi ymuno â Dosbarth 4 a Sionedd wedi ymuno â Dosbarth 2. Rydym yn falch o gael eich cwmni.

Cafwyd cyngherddau Nadolig llwyddiannus iawn eleni eto ac o ganlyniad, braint oedd gallu cyflwyno siec o £1255 i elusen Dystroffi'r Cyhyrau.

Fe ganodd Côr yr Ysgol mewn cyngerdd yng Nghanolfan Byddin yr Iachawdwriaeth ddechrau mis Rhagfyr gan lwyddo i godi swm o £900 tuag at elusen "Action for Children". Cawsant hefyd yr anrhydedd o ganu yng Ngwasanaeth Carolau'r BBC yn Neuadd Dewi Sant. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i bob un.

Diwedd y tymor diwethaf, gwahoddwyd aelodau o'r Pwyllgor Eco i gymryd rhan mewn Cynhadledd Eco Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Mae'n amlwg iddynt greu argraff oherwydd maent wedi derbyn gwahoddiad i estyn cymorth i ysgol yn y Ffindir wrth iddynt hwy ddechrau prosiect.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed bechgyn yr ysgol am wneud mor dda yn nhwrnament yr Urdd – ennill dwy gêm a sicrhau tair gêm gyfartal. Gwych bois! Wythnos yn ddiweddarch tro'r merched oedd hi! Fe gawsant hwythau hwyl gan lwyddo i ennill dwy gêm, colli un a sicrhau un gêm gyfartal. Felly…….gwych ferched hefyd!

Harri Tudur a Dosbarth 4

Tîm pêl-droed y merched

Bwrlwm Nadolig Tabernacl

Hamperi ar gyfer pobl ifanc yr ardal.

Dathliadau gyda aelodau o'r gynulleidfa Saesneg.

Cyngerdd Nadolig gyda Côr y Cwm



Pentyrch (tudalen 9)

Priodas Chris Warlow a Lowri Glyn

Sara o flaen cerflun Nelson Mandela

Wil Owen mab Marged a Dan Wyatt

Llantrisant (tudalen 8)



Priodas Tom a Sinead Moses

Mali Haf merch Carys a Darren Brown

Gwen Mabli merch Llio a Mark Ellis

Llongyfarchiadau i Lena Evans. Mae Lena yn ferch i Awen Mai a Rhys Evans ac yn ddisgybl ym Mlwyddyn 3 yn Y.G.G. Llantriasnt. Yn ddiweddar bu'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth 'Pencampwriaeth Cenedlaethol' *Tang Soo Do*, Karate yng Nghastellnedd. Dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu a llwyddodd i ennill medal efydd.

Creigiau (tudalen 7)

Florence Dorothy West
Cyrhaeddodd Florence ar y 18fed o Dachwedd - 2014 - yn ail blentyn bach i Angharad (Davies gynt) a Mark West. Mae'n chwaer fach i Phinneas sy' bellach yn ddwy a hanner oed! Yn Riseley ger Reading mae'r teulu yn byw ac mae Mam-gu - sef Linda Davies - wedi bod yn gwneud y daith yn wythnosol i warchod Phinneas! Llongyfarchiadau mawr Angharad a Mark a croeso i Florence.

Freddie Harvey
Brawd bach newydd sbon Seve! Cafodd Freddie ei eni ar y 9fed o Ionawr eleni yn ail blentyn i Virginia (MacDonald gynt) ac Ian Harvey. Roedd yn pwyso 7 pwys a 5 owns! Ac mae e'n gariad! Llongyfarchiadau mawr Ian a Gin - a llongyfarchion mwy - Mam-gu Jen a Thad-cu Mike nawr bod ganddynt ddeg o wyrion!! Chwech o fechgyn a phedair merch fach! Da iawn chi! Dros Gymru!

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Genedigaethau
Llongyfarchiadau gwresog i Eifion a Cliff Hewitt, Penywaun ar ddod yn Nain a Thad-cu. Ganwyd Mali Haf i Carys a Darren ar Ragfyr 4ydd. Does dim rhaid dweud fod Einiona a Cliff ac Wncwl Siôn wedi gwirioni'n lân ar Mali fach.

Llongyfarchiadau hefyd i Geraint a Caroline Rees, Penywaun ar ddod yn Dad-cu a Mam-gu ac i Eirian ac Ann sydd yn hen-dad-cu a hen-fam-gu! Ganwyd Eiri Gwen i Dewi a Leah ar Ragfyr 30ain. Llongyfarchiadau gwresog i chi i gyd.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu'r diweddar John Jones, Nant y Felin a fu farw ddiwedd y flwyddyn ar ôl dioddef salwch hir. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Glyntaf ar Ragfyr 30ain gyda'r Parchedig Eirian Rees yn gweinyddu.

Apêl Siop a Swyddfa Bost y pentre'
Gwahoddodd Owen a Joanne y pentrefwyr ynghyd i Gyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd y pentref nos Fawrth, Ionawr 6ed i drafod dyfodol Siop y Pentre'. Apêl daer ar i'r pentrefwyr ddefnyddio'r siop neu ei cholli oedd gan Owen a Joanne. Soniodd y ddau am yr holl gyfleusterau yr oeddynt yn cynnig yn y siop a'r Swyddfa Bost. Roedd y neuadd yn orlawn ar y noson a phawb yn gefnogol iawn. Gobeithio yn wir y bydd pob un ohonom yn cefnogi Owen a Joanne gan ddefnyddio'r siop yn rheolaidd.

Y TABERNACL
Gweithgareddau'r Nadolig
Gyda bwrlwm y Nadolig drosodd ers tro, mae meddwl am yr Oedfaon a'r holl weithgareddau'n aros yn felys yn y cof. Bu llewyrch ar Wasanaeth yr Ysgol Sul a Gwasanaeth y Twmiaid Bach ar Ragfyr 14eg a'r 21ain. Geraint Rees lywiodd Oedfa Noswyl y Nadolig a chafwyd Oedfa gofiadwy a phawb yn cael cyfle i gyfarch ei gilydd ar fore Dydd Nadolig.

Uchafbwynt arall yng nghalendr blynyddol Nadolig y Tabernacl yw cyngerdd blynyddol Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm ar nos Sul, Rhagfyr 21ain. Cafodd y gynulleidfa ei gwefreiddio gan safon y canu.

Bedydd
Bore Sul, Ionawr 4ydd bedyddiwyd Noa Tomos Eyres Corry, mab bach Bethan a Tim, ac ŵyr annwyl Rhian a Dave Eyres, Heol Iscoed. Gweinyddwyd y gwasanaeth yn ddeheuig iawn gan Jane Eryl Jones ac roedd yn braf cael croesawu teulu a ffrindiau Bethan a Tim i'r oedfa.

Dymuniadau Gorau
Dymunwn adferiad iechyd buan i ddau o'n haelodau sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Ken Jones ac i Glenys Roberts. Yr un yw ein cyfarchion i Eifiona Hewitt a dderbyniodd driniaeth i'w llygad yn ystod y mis.

Rhagor o Neiniau a Theidiau
Mae wedi bod yn gyfnod cynhyrchiol iawn yn yr ardal hon yn ddiweddar. Llongyfarchiadau gwresog i Penri a Carol Williams ar ddod yn daid a mam-gu am y tro cyntaf. Ganed Gwen Mabli i Llio a Mark Ellis ar Ionawr 13eg. Croeso mawr iddi. Yr un yw ein cyfarchion i Jen Macdonald ar enedigaeth ei hwyr bach, Freddie. Mab i Virginia ac Ian.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Roy a Glenys Davies, Meisgyn yn eu profedigaeth o golli mam Roy a hynny mor fuan ar ôl y brofedigaeth erchyll o golli Carwyn eu mab.

Elusennau
Mae aelodau'r eglwys yn Y Tabernacl yn cefnogi sawl elusen yn ystod y flwyddyn. Cefnogir elusennau megis Ymchwil Canser Cymru, Childline, Gofalwyr Ifanc a Chymdeithas Alzheimer yn ogystal ag achosion sy'n fwy lleol ee. Y banc Bwyd ym Mhontyclun. Gwahoddwyd yr aelodau i dalu punt yr un am gael gwisgo Siwmper Nadoligaidd ar Sul, Rhagfyr 21ain a'r arian i gael ei drosglwyddo i deuluoedd anghenus yn yr ardal drwy law aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol. Cefnogwyd Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol sydd yn ariannu prosiectau iechyd mam a phlentyn yn Kenya. (Bydd Llywodraeth Prydain yn cyfrannu punt am bob punt a gesglir gan yr apêl). Bu grŵp o garolwyr yn canu o amgylch y pentref cyn y Nadolig i gefnogi'r apêl yma. Bydd cyfle i gyfrannu at yr Apêl tan ddechrau mis Chwefror.

Apêl am ddillad plant
Daeth i sylw John Llewellyn Thomas bod angen dillad plant o bob oed ar y gwasanaeth Cymdeithasol lleol. Mae nifer o'r aelodau wedi ymateb i'r cais yn barod, ond mae angen rhagor. Croeso felly i chi adael oed ar y gwasanaeth Cymdeithasol lleol. mae Cymru, Childline, Godillad mewn bagiau duon yn llofft y capel. Diolch am eich haelioni.

Merched y Tabernacl
Cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd i Ferched y Tabernacl oedd taith i Gaerdydd i Neuadd Dewi Sant i wrando ar gyngerdd awr ginio gan Driawd y Pomgrenadau. Triawd a oedd yn cynnwys ffidil, soddgrwth a phiano, ac fe berfformiwyd gweithiau gan Rachmaninov a Beethoven. Y cyfarfod nesaf fydd dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio canol dydd ym Mwyty Caesar's ddydd Mawrth y 3ydd o Fawrth. Cysylltwch â Margaret Calvert ar 01443 222908 os ydych am ymuno yn y dathlu.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Lluniau tudalen 16

Ffair Nadolig
Trefnwyd Ffair Nadolig gan y gymdeithas rieni - diolch yn fawr i'r stondinwyr am sicrhau llwyddiant y ffair ac i bawb wnaeth gefnogi. Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn brysur iawn yn creu ceir llusg Siôn Corn, o losin, i'w gwerthu. Diolch i aelodau'r Cyngor Ysgol am helpu i drefnu'r ffair.

Te gyda Siôn Corn
Roedd plant y Cyfnod Sylfaen yn gyffrous iawn pan ddaeth Siôn Corn i gael te yn yr ysgol. Cafodd pob plentyn becyn bwyd, anrheg a sgwrs â Siôn Corn. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rieni am drefnu yr ymweliad.

Sioeau Nadolig
Roedd tair sioe Nadolig wahanol ar y gweill unwaith eto eleni – 'Y Goeden Fach Hardd' - Meithrin a Derbyn, 'Y Cerdyn Nadolig'- Blynyddoedd 1 a 2 a'r 'X-mas Ffactor' gan blant yr Adran Iau. Diolch yn fawr i'r holl blant a'r staff am weithio mor galed i sicrhau sioeau o'r radd flaenaf.

Pantomeim
Bu disgyblion Bl 1 a 2 ar drip i'r Barri i weld pantomeim newydd Martin Geraint sef 'Pws mewn Bŵts.' Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Trip i Weld Siôn Corn
Aeth plant y Dosbarth Meithrin a Derbyn i weld Siôn Corn ym Mharc Gwledig Dâr. Cafodd pawb amser wrth eu boddau yn cael cyfarfod â'r gŵr prysur.

Ymweliad yr Heddlu
Fe ddysgodd y dosbarth Meithrin a Derbyn lawer am waith yr heddlu a chŵn yr heddlu pan ddaeth PC Richards a PC Davies i ymweld â'r dosbarth yn ddiweddar. Roedd hyn yn rhan o'u gwaith ar y thema anifeiliaid.

Cyngor Eco
Mae aelodau y Cyngor Eco wedi bod yn brysur yn tacluso ardal o'r ysgol er mwyn creu Gwesty Bwystfilod Bychan. Mae'r plant wedi mwynhau dysgu am gynefinoedd gwahanol a helpu i annog byd natur yn ein hamgylchedd.

Llysgenhadon Diogelwch y Ffordd
Llongyfarchiadau i Millie Lewis a Sarann John o Flwyddyn 6 a Ffion Jones a Llinos Bailey ar gael eu hethol yn Lysgenhadon Diogelwch y Ffordd. Maent wrthi yn brysur yn hyrwyddo cynllun 'Byddwch Lachar – Byddwch Saff'.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Chwefror
Chwefror 1af Oedfa Gymun o dan ofal aelodau Tonteg a Phentre'r Eglwys
Chwefror 8fed Dafydd Iwan
Chwefror 15fed Geraint Rees
Chwefror 22ain Keith Rowlands

CANTORION CREIGIAU

Mair Roberts, Cedric a Helen

Dros y Nadolig bu Cantorion Creigiau yn dymuno hwyl fawr i Helen Watkinson, eu cyfeilydd am y deuddeg mlynedd diwethaf. Mae Helen, sydd wedi bod yn gweithio i Gwmni Theatr Genedlaethol Cymru, yn symud i swydd gyda Chwmni Ballet Brisbane.

Daw Helen yn wreiddiol o Sir Gaerhirfryn ond mae wedi ymdoddi yn hawdd i weithio gyda Chôr Cymreig, ac mae ei dawn cerddorol wedi bod o fudd enfawr i'r Arweinydd, Mair Roberts. Yn bennaf byddwn yn colli ei hamynedd tawel ac mae'r côr yn teimlo eu bod yn colli aelod o'r teulu. Dymuniadau gorau i Helen a'i gŵr Cedric ar eu hantur i Awstralia.

Ar ôl tymor llwyddiannus 2013/14, dechreuodd Cantorion Creigiau raglen yr Hydref gyda chyngerdd yn Eglwys Dewi Sant yng Nghaerdydd i godi arian i blant awtistig. Cafodd hyn ei ddilyn gan gyngerdd ar y cyd gyda thri o gorau eraill yn Eglwys Gadeiriol Llandaf er budd Tenovus. Ein menter ddiweddaraf oedd ymweliad eto â Neuadd Eglwys Sili lle bum yn difyrru cynulleidfa dan ei sang gyda rhaglen lawn o ganu côr, unawdau ac eitemau ysgafn.

Os ydych chi yn mwynhau canu ac yn awyddus i ddod yn rhan o gôr prysur sy'n canu repertoire amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys cerddoriaeth ysbrydol, caneuon o'r sioeau, caneuon gwerin traddodiadol a gwaith gwreiddiol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer Cantorion Creigiau, yna beth am ymuno â ni? Rydym yn ymarfer ar nos Sul yn Ysgol Gynradd Creigiau am 7.30pm. Ar hyn o bryd, rydym yn arbennig o awyddus i recriwtio baswyr a sopranos newydd ond mae croeso i gantorion ym mhob llais i ddod i roi cynnig arni!

Cyngherddau sydd eisoes wedi'u trefnu yw - Dydd Sadwrn 21 Chwefror - Clwb Golff Creigiau. Dydd Sadwrn 20 Mehefin - Inkberrow.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag ymuno â'r côr, cysylltwch â mi ar julesajwe@aol.com, gofynnwch i unrhyw aelod o'r côr neu dim ond troi i fyny adeg practis nos Sul. Rydym yn dechrau'r flwyddyn newydd ar 11 Ionawr. Os ydych am drefnu cyngerdd, cysylltwch â variongapper@gmail.com

Julia Winkler (Cadeirydd)

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 407570

www.menteriaith.org

Staff newydd

Hoffwn gyflwyno ein haelodau staff newydd, Michael Goode a Rian Watkins.

Michael Goode yw ein pennaeth gwasanaethau plant. Ei waith ef bydd i gynllunio, trefnu a chynnal ein clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau chwarae sydd yn rhedeg trwy gydol y flwyddyn.

Mi fydd Rian yn gweithio fel swyddog datblygu fforymau yn cwrdd yn aml gyda phobl ifanc yr ardal er mwyn trefnu digwyddiadau Cymraeg.

Croeso mawr i chi'ch dau a phob lwc!

Parti Ponty 2015

Dyddiad i'ch dyddiaduron…Dewch i Barc Ynysangharad Pontypridd Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 11eg eleni am ddiwrnod o hwyl i'r teulu cyfan. Mae pawb yn gyffrous iawn yma yn y Fenter gan ein bod ni yn y broses o drefnu'r Parti Ponty cyntaf ers 5 mlynedd. Rydym yn gobeithio dilyn llwyddiant Parti Ponty y gorffennol ond ychwanegu llawer mwy.

Cadwch lygaid allan am fwy o fanylion yn ystod y misoedd nesaf.

Eisteddfod yr Urdd 2017

Cyhoeddwyd yn ddiweddar mai'r enw ar dalgylch Eisteddfod yr Urdd 2017 yw Eisteddfod yr Urdd Pen-y-Bont Taf ac Elái. Mae hwn yn newyddion ardderchog i Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr i gynorthwyo â'r trefniadau gyda Einir Sion ein prifweithredwraig yn weithgar iawn ar y pwyllgor gwaith.

Cynlluniau Chwarae Hanner tymor Chwefror / 16eg – 20fed Chwefror

Cofiwch…Byddwn yn rhedeg cynlluniau chwarae i blant yn ystod y gwyliau ysgol.

Cynllun Chwarae Gartholwg – Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg, Pentre'r Eglwys. 9:00yb – 5:00yp *Bydd angen archebu lle o flaen llaw. Ffoniwch swyddfa'r Fenter ar 01443 407570

Cynllun Chwarae mynediad agored Bodringallt - Ysgol Gynradd Bodringallt

10:00yb – 12:00yp *Cynta' i'r felin

Cynllun Chwarae mynediad agored Aberdâr – Ysgol Gynradd Aberdâr

10:00yb – 12:00yp *Cynta' i'r felin

Croeso mawr i bawb!

Ffoniwch y swyddfa am fanylion pellach neu ewch i wefan y Fenter: www.menteriaith.org

Gwirfoddolwyr trefnu digwyddiadau Clwb y Bont

Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn chwilio am wirfoddolwyr 18 oed+ i ymuno â grŵp trefnu digwyddiadau Cymraeg yng Nghlwb y Bont, Pontypridd.

Mae'r gwirfoddolwyr yn gweithio gyda'i gilydd o dan arweiniad y Fenter er mwyn trefnu digwyddiadau Cymraeg yn y clwb.

Ar hyn o bryd, rydym yn cwrdd bob wythnos yng Nghlwb y Bont.

Croeso i bawb! Dysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl. Cyfle arbennig i ymarfer eich Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth a llawer o hwyl.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Catrin ar 01443 407570'

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Traddodiadol Capel Moriah nos Sul 14 Rhagfyr dan arweiniad Dawn Walters. Mae aelodau'r capel am ddiolch i bawb a ddaeth ar noson mor wlyb ac i'r canlynol am gymryd rhan arbennig yn y gwasanaeth – Bethan Richards (Ysgol Penygawsi), Mylie Farr, (Ysgol Hendreforgan), Esmay Walters ac Ellis Hitchings (Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail) a Teilo ac Indeg Evans (Ysgol Llangynwyd Maesteg). Yn anffodus nid oes gwasanaeth wedi bod ers y Nadolig, gyda Gwenda Lewis dal yn Awstralia ar gyfer priodas ei wyres, Lorraine Jones sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei llygaid a Mair Thomas sydd yn aros am glun newydd – ond gobeithio gawn ni gyd cwrdd cyn bo hir yn enwedig i ddymuno penblwydd hapus i Mair yn 90 ar Ionawr 22.

Trist yw clywed y newyddion fod un o gymeriadau mawr y pentref wedi marw sef Fred Palmer neu Freddie fel mae pawb yn ei adnabod. Bu Fred yn berchennog y siop cigydd yn Evanstown rai blynyddoedd yn ôl ond yn ddiweddar roedd pawb yn gyfarwydd o'i weld yn siop ei wraig sef JEANS. Bydd pawb yn gweld eisiau ei garedigrwydd. Cydymdeimlwn â'r teulu.

Bu nosweithiau cymdeithasu arbennig yn y clwb rygbi yn ddiweddar gyda'r siaradwyr gwadd Kingsley Jones yr hynaf Frank Bunce a Fergus Slattery.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r awdur a'r actor Mei Jones a'r teulu ar ôl iddo golli ei fam, Mrs Jane Jones yn Sir Fôn. Yn wreiddiol o ardal Llanddaniel, bu hi a'i phriod yn ffermio yn Llanddona yn nwyrain yr Ynys cyn ymddeol i Lanfairpwll.

Ymddeoliad
Dymuniadau gorau i Dr Helen Middleton ar ei hymddeoliad yn ddiweddar. Gweithio fel Rheolwr Ansawdd oedd Helen i Raglen Trawsblannu Gwaed a Mêr Esgyrn De Cymru. Lleolir y Gwasanaeth yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Bydd gan Helen a Gordon - sy hefyd wedi ymddeol yn gymharol ddiweddar - ddigon o amser bellach i deithio yn eu campyr-fan swish o gwmpas y wlad, yn tynnu lluniau, cerdded a mwynhau arafwch bywyd! Pob hapusrwydd eich dau!

MyW - Cangen y Garth
Wil Davies - Atgofion Pontrhydyfen
Odd wir, mi rodd hi werth aros am naw mis neu debyg i fwynhau yr orig arbennig yma yng nghwmni Wil! I'r rhai fentrodd allan ar noson hynod stormus - Wil yn ein plith, gafodd siwrne anturus iawn i'r Ganolfan ond wnawn ni ddim dilyn y sgwarnog yna! - cawsom ein difyrru gan straeon hollol unigryw o'i fagwraeth ym Mhonrhydyfen! Cafodd groeso cynnes iawn gan Eleri - ond daethom i'w adnabod ymhellach drwy ei anecdotau gwych! Ei hanes yn blentyn direidus - unig blentyn - ond cyfaill i lawer! Ymhlith ei gyfeillion bore oes - tad a chwaer Richard Burton. Roedd ganddo stori wych am barsel gyrhaeddodd ei gartref â marc post Efrog Newydd arno - oddi wrth Rich - yn diolch am gymwynas arbennig iawn. Stori arall am ei anturiaethau yn y fynwent gyfagos! Pwy ond Wil ddysgodd nofio ar blatfform stesion Pontrhydyfen! Ac ennill *perma tan* wrth ddysgu! Pan dyfodd yn ddyn - byd teledu aeth â'i fryd - yn y pen draw - a bu'n gweithio ar raglenni hynod ddifyr. Cawsom brofi ambell dro trwstan arall o'r byd hwnnw. Cofio stori'r esgyrn - y patholegydd - y Dr Bernard Knight a'r Dalmatian? Ond efallai taw'r glasur oedd stori'r ceffyl siglo! Anfarwol! Diolch Wil am awr o ddifyrrwch pur - ac os byth y gwelwch chi enw Wil Davies ar unrhyw '*fill*' ewch i wrando ar bob cyfrif! Diolch hefyd i Joy am y gymwynas! Bydd ein cyfarfod nesa yn Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth pan fydd Sarah Vivian - hyfforddwraig parafeddygon - yn ein hannerch. Cofiwch y dyddiad - Chwefror 11eg am 8 yr hwyr - yn Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth. Croeso i aelodau hen a newydd!

MyW - Cangen y Garth - Bwydydd Nadoligaidd
Daeth criw da yngyd i brofi danteithion Nadoligaidd/Cymreig yng nghwmni yr arbenigwraig Siân Bassett 'chydig cyn y 'Dolig. Cawsom ein cyflwyno i ddiodydd a bwydydd lleol - a chael cryn dipyn o hanes sefydlu'r cwmniau. Yn ein tro cawsom brofi cawsie arbennig - a hynny i 'gyfeiliant' bisgedi ceirch hyfryd a wnaed gan Siân yn arbennig ar gyfer y noson. Gobeithio y cawn gyfle i rannu rysait Siân ymhlith yr aelodau cyn hir! Tynnodd Siân ein sylw at y Siop Fwyd sy wedi agor yn ddiweddar ar ochr Tafarn y Kings - siop sy'n gwerthu cigoedd a chawsie Cymreig bendigedig!

Panto 'Aladdin' ym Mhorthcawl!
Llongyfarchiadau mawr i Danny Grehan ac Amy Coombes ar eu perfformiadau ffantastig ym mhanto'r Grand ym Mhorthcawl dros y Nadolig! Mynte adolygydd celfyddydol y Western Mail 'Danny Grehan is pitch-perfect as Abanazar, although it's hard to hear exactly what he's up to due to all the booing and jeering he skilfully elicits from the livid crowd'. Ac Amy - sy bob amser mor ddel, mor swynol - 'Amy Coombes is radiant as Princess Balroubadour'. Da iawn chi bois! Tan y flwyddyn nesa!

Clwb y Dwrlyn yn Canu Carolau!
Daeth criw bach talog ynghyd ar noson oer, ond sych i ganu carolau o gwmpas Creigiau wythnos cyn y 'Dolig - a wir, diolch i haelioni pobol y pentre - a seiniau soniarus y 'côr' - fe godwyd dros £180 at achos da lleol, sef Ysgol Craig y Parc. Diolch i bawb am eu cefnogaeth!

Ysgol Pont-Sion-Norton

(Lluniau Tudalen 14)

Nofio yr Urdd
Llongyfarchiadau i Carwyn Salmon, o flwyddyn 6, ar gyrraedd rownd derfynnol cystadleuaeth Gala Nofio yr Urdd. Mi fydd y rownd derfynnol ar ddydd Sadwrn 24ain o Ionawr. Pob lwc Carwyn!

Taith hanesyddol
Bu blynyddoedd 3 a 4 ar daith gerdded yn ddiweddar. Daeth David Gwyer o Amgueddfa Pontypridd i dywys y dosbarthiadau o amgylch yr ardal leol i weld olion Oes Fictoria a newidiadau ers y cyfnod. Cafwyd prynhawn diddorol a heini!

Pêl-rwyd yr Urdd
Bu tim o ferched blwyddyn 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd ar ddechrau mis Ionawr. Cafwyd diwrnod da ac enillwyd 2 gem a collwyd 2. Roedd y merched wedi mwynhau yn fawr iawn, ac yn edrych ymlaen at eu gem nesaf!

Hwyl fawr
Roedd pawb yn drist iawn wrth ddweud hwyl fawr wrth Jodie Evans cyn y Nadolig. Y mae hi a'i theulu wedi symud i Loegr dros y gwyliau. Trist hefyd oedd ffarwelio gyda Keegan a Jayden Jones ar ol y Nadolig. Pob lwc i bawb.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein cyfarfod cyntaf yn 2015 (Ionawr 19eg) cawsom gwmni Ashley Brew yn sôn am destun sy'n taro'r newyddion yn lled aml y dyddau hyn, sef, Celloedd Tanwydd Hydrogen. Gobaith mawr y dyfodol, ym marn rhai, yw y bydd hydrogen yn disodli petrol fel prif danwydd ceir a cherbydau eraill Os felly bydd lleihau ar ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, gan warchod y blaned ac ymateb i'n trachwant am egni, gan fod hydrogen yn adnodd diderfyn. Does dim byd mor syml â hynny.

Cawsom olwg gan ein gwestai ar yr ymchwil manwl sy'n cyfrannu at well dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ffactorau sy ynghlwm wrth ddatblygiad adeiladol o dechnoleg fydd yn ddi-os ymhlith manteision y dyfodol.

Er bod teitl yr anerchiad yn awgrymu pwyslais ar hydrogen, roedd yr is-deitl – Deall yr Adwaith Rhydwytho Ocsigen – yn arwyddo sut y mae ymchwil mewn un maes yn arwain at ac yn deillio o wybodaeth o faes arall.

Cawsom gipolwg ar hanes astudiaethau o gelloedd tanwydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw. Ar y daith disgrifiwyd cyfraniad arloesol William Grove, y polymath o Abertawe, yn wyddonydd ac yn gyfreithiwr. Amlinellwyd yn dwt y camau breision a gymerwyd ers 1950 gan gloi gydag ymchwil penodol ein siaradwr ym Mhrifysgol Caerdydd lle mae yn llunio'I draethawd ar gyfer Ph.D.

Nid yn lleiaf o bleserau'r cyfarfod i mi oedd gwrando ar gyflwyniad llyfn Ashley, sy wedi dysgu'r Gymraeg ers bod yn y coleg, heb sail hyfforddiant o'i ddyddiau cynnar yn Ysgol Gynradd Brynhyfryd, Llansawl, Ysgol Uwchradd Cwrt Sart a Choleg Chweched Dosbarth Castellnedd Port Talbot. Arbennig!

Y tro nesaf (Chwefror 16eg) cawn glywed gan David Jenkins-Jones am helyntion adar a gwaith gwarchodol yr RSPB. Byddwn yn ymgynnull yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad y brifysgol; mae'r fynedfa oddiar Park Place. Croeso mawr.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Eirlys Lamb

Adfywio Neuadd y Gorfforaeth
Mae Neuadd y Gorfforaeth, (y Guildhall) yn adeilad rhestredig gradd 2 ac yn eiddo i Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant ers 1889. Dros y blynyddoedd defnyddiwyd y Neuadd fel Llys, Cell, ysgol yn ogystal â lle i arddangos lluniau, dogfennau ayyb i ddathlu hanes unigryw y dre. Wel, mae'r hen Neuadd ar fin cael ei gweddnewid i fod yn ganolfan ymwelwyr penigamp, diolch i Gronfa Loteri'r Treftadaeth sydd wedi rhoi grant o £768,500 at y gwaith.
Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw creu Canolfan gydag adnoddau i'r gymuned gyfan i'w defnyddio a fydd hefyd yn denu mwy o ymwelwyr i'r ardal. Gan fod dau lawr i'r Neuadd y bwriad hefyd yw lleoli holl arteffactau'r Ymddiriedolaeth yno, gan gynnwys y byrllysg ("Mace") sydd yn hŷn na'r un yn y Tŷ Cyffredin (medde nhw!)
Os hoffech wybod mwy am y prosiect cyffrous yma ewch i wefan y dre.

Ysgol Newydd y Pant
Ar ôl hir ddisgwyl a thrafod mae'r Llywodraeth a Chyngor Rhondda Cynon Tâf wedi cytuno i wario £26 miliwn i adeiladu ysgol uwchradd newydd ar y safle presennol. Disgwylir i'r ysgol newydd ddal 1500 o ddisgyblion sy'n dipyn mwy na'r rhif presennol. Cawn fwy o wybodaeth am y prosiect yma dros y misoedd i ddod..

Clwb Gwerin Llantrisant
Bob nos Fercher mae'r Clwb Gwerin yn cyfarfod, bellach yn lolfa'r Clwb Athletig ym Mhontyclun. Ym mis Tachwedd roedd y lle yn orlawn pan ddaeth y band gwerin Calan i ddiddanu'r gynulleidfa trwy chwarae offerynnau, canu a thipyn o ddawnsio yn ogystal. Mae Huw (un or aelodau) yn glocsiwr o fri a chafwyd tipyn o hwyl wrth wylio "clog-off" rhyngddo fe a'i ferch Bethan. Arweinydd y cyfarfodydd yw Pat Smith sy'n adnabyddus yn lleol fel galwraig mewn twmpath dawns, cantores yn y grwp Calennig ac wrth gwrs fel un sy'n arwain y Fari Lwyd o gwmpas yr ardal adeg y Flwyddyn Newydd.

Calan

Neuadd y Gorfforaeth

Babi bach newydd ym Meisgyn.
Ganwyd Mali Haf (6pwys 14owns) i Carys (gynt Hewitt) a Darren Brown ar y 4ydd o Ragfyr. Mae Carys a Darren wedi ymgartrefu yn yr hen bentref ers peth amser. Croeso mawr i Mali fach a llongyfarchiadau i'r teulu i gyd. Mae Nain a Tadcu (sef Cliff ag Eifiona Hewitt yn Efail Isaf) wrth eu bodd.

Priodas Tom a Sinead
Llongyfarchiadau i Tom a Sinead Moses ar eu priodas yn yr Eglwys Gadeiriol yn Llandaf ym mis Tachwedd. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Mae Tom yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Llantrisant ac yn fab i Geoff a Norma Moses, Groesfaen.

Gohebydd mis nesaf: Margaret White. magiwyn15@gmail.com

Merched y Wawr Tonysguboriau.
Er fod dathliadau'r Nadolig wedi hir fynd heibio mae'n rhaid cyfeirio at ein noson yng nghwmni Côr yr Einion ym mis Rhagfyr. Fe wnaeth hwyl y canu wneud i fyny am orfod troi allan ar noson wlyb ag oer. Cawsom raglen o ganeuon Nadoligaedd, sawl carol, gyda chyfle i'n haelodau i ymuno, ac hefyd carol blygeiniol i blesio'n llywydd! Rhwng nifer ardderchog o aelodau'r côr ddaeth i'n difyru a chynulleidfa deilwng iawn roedd y neuadd yn llawn - da iawn fod ein trysorydd wedi prynu digon o 'fins peis' i bawb. Rhaid diolch hefyd i'r aelodau sydd bob amser mor barod i baratoi'r 'paned.

Gan fod ein cyfarfod ym mis Ionawr yn agos i ddydd Santes Dwynwen priodol oedd cael Marian Evans atom i arddangos sut i ddefnyddio brodwaith croesbwyth i baratoi cerdyn addas. Cawsom dipyn o hanes y traddodiad o wneud sampleri ganddi a chael gweld engreifftiau o waith llaw crefftus Marian. Er bod rhai o'n haelodau yn gyfarwydd iawn â gwneud gwaith llaw cafodd fwy nag un ohonom dipyn o drafferth i gael yr edau trwy lygad y nodwydd cyn cychwyn ar y gwaith o greu calon mewn croesbwyth a bydd angen gorffen y cerdyn fel 'gwaith cartref'.

Marian Evans a chriw Merched y Wawr.

acapela STUDIO

Gwener 13eg Chwefror, 8.00yh: Martyn Joseph (Tocynnau: £14/£16)
Mercher 18th Chwefror, 7.30yh: Gweithdy Barber Shop Harmony gyda Paul Wigley (Tocynnau: £5 oedolion gweithdy/£3 plant, £2 cynulleidfa)
Gwener 20ed Chwefror, 8.00yh: Classical Café (Tocynnau: £10/£12.50/£15)
Iau 26ain Chwefror, 8.00yh: Noson gyda Shan Cothi a Ffrindiau (Tocynnau: £15/ £20)
Sadwrn 7ed Mawrth, 8.00yh: Huw Chiswell (Tocynnau: £7.50, £10)
Iau 19eg Mawrth, 8.00yh: Catrin Finch – 'Tides' Wales Lansio Albwm (Tocynnau: £15/£17.50/£20)
Tocynnau: http://www.acapela.co.uk

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb y Dwrlyn
Cynhaliwyd cinio Nadolig y Clwb yn De Courceys yn ôl yr arfer erbyn hyn. Yn ogystal â mwynhau'r bwyd a'r gwmniaeth rhaid oedd cwblhau ambell dasg megis ysgrifennu englyn. Dyma rai o'r goreuon…….

Wy'n stiff yn llawn o stwffin - yn farw
Yn ferw i'r esgyrn;
Beth yw gŵyl heb hwyl fel hyn,
Mae'n angladd mewn un englyn!
(Hannah Roberts.)

O orwedd gyda'r Dwrlyn - yn De Courceys
Daw cur bore wedyn;
Golff a Rudolff i'r dyn,
A oes 'na le i'r asyn?
(Colin Williams.)

Hagr a hallt y deigryn - a lanw'n
Eleni heb Sbardun;
Y nodwydd mwy heb nodyn
Dwys ein wicend heb y dyn.
(Rhodri Gwyn Jones.)

Tyrd yn nes at y preseb - i weled
Y golau'n ei wyneb;
A heno'n wir ni all neb
Herio ei hen warineb.
(Emlyn Davies.)

Taith Sara
Dyma grynodeb o adroddiad gan Sara Pickard am ei thaith i Dde Affrica a Lesotho ym mis Tachwedd 2014 fel swyddog gyda Mencap Cymru.

"Wedi taith hir i Durban anghofiwyd am y blinder wrth i ni gael y wefr o weld "pod" o forfilod o'n gwesty glan môr. Gyrru wedyn i Pietermaritzburg i gyfarfod â chynrychiolwyr o sefydliad "Climb Any Mountain" a thrafod ein gwaith ym Mencap Cymru a'r math o gefnogaeth sydd o fudd i bobl â Syndrom Downs ac anableddau dysgu.

Yna gwely cynnar gan fod cynhadledd bwysig o'n blaen gyda chynrychiolwyr rhieni, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr pobl ag anableddau dysgu. Rhyfedd oedd trafod hefyd gyda'n cyd-weithwyr yng Nghaerdydd drwy gysylltiad fideo. 'Roeddem yn hapus iawn iddynt newid enwau'r staff o "ofalwyr" i "gefnogwyr" o ganlyniad i'n hymweliad.

Ymlacio ar y Sul - nofio a mwynhau "brai" sef barbeciw Affricanaidd wrth ymweld â chanolfan i'r anabl a chael croeso mawr. Yna taith o 8 awr mewn Jeep i Maseru, Lesotho a chyrraedd y gwesty mewn storm enbyd o fellt a tharanau. Braf oedd ail-ymweld â phrosiect y bûm ynghlwm ag e' yn 2012 pan fûm yn paentio meithrinfa a chael cwtsh anferth gan hen ffrind fel Neo!

Wedyn taith arall ar draws Lesotho i Quthing ble bydd Mary Oliver, gwirfoddolwraig gyda Mencap Cymru, yn gweithio ym mis Chwefror a Mawrth. Er na chawsom gyfle i gwrdd â Phrifweinidog Lesotho, daeth Ymgynghorwr y wlad ar Anghenion Arbennig i drafod gyda ni cyn i ni hedfan i Capetown.

Aethom ar ymweliad â'r Senedd a chymryd rhan mewn trafodaethau ar gynhwysiad pobl anabl mewn gwleidyddiaeth. A rhaid wrth gwrs oedd tynnu llun o flaen cerflun Nelson Mandela a phrynu llyfr o'i ddywediadau i Dad.

'Roedd amser i ni ymlacio ychydig ar ein penwythnos olaf a mwynhau'r golygfeydd o Table Mountain. Bu'n brofiad anhygoel ac yn daith fuddiol. Diolch i'm cyfarwyddwr Wayne am y cyfle ac i'm cyd -deithwyr Dot a Mike. Nawr 'rwy'n edrych mlaen at ragor o deithio i Lundain ac ar draws y byd fel cynrychiolydd i'r sefydliad Inclusion International."

Y Clwb Rygbi
Mewn partneriaeth â'r elusen Calonnau Cymru ac Undeb Rygbi Cymru mae Clwb Rygbi Pentyrch nawr yn berchen ar beiriant calon sef y defibrillator. Mae sawl aelod o'r Clwb wedi eu hyfforddi i ddefnyddio'r peiriant sydd yn adrodd neges wedi ei recordio ar sut i'w ddefnyddio wrth i chi ei agor.

Mae'r Clwb yn barod i rannu'r peiriant gydag unrhyw un o'r gymuned leol lle bo achos o argyfwng pan yn aros am gymorth meddygol. Gellir cael y peiriant drwy alw yn y Clwb neu ffonio 02920 890483. Os yw'r Clwb ar gau gellir cysylltu â Michaela Farnham (07734 845493) neu Bob Gilchrist (02920 20891712 / 07866 758382). Mae'r Clwb ar agor Llun - Gwener 15.30 - 23.00, Sadwrn 12.00 - 23.00 a Sul 11.00 - 22.00.

Genedigaeth
Croeso mawr i Wil Owen Wyatt, a aned ar yr 8fed o Ragfyr 2014. Roedd yn pwyso 6 phwys a 13 owns, ac fe gyrhaeddodd rhyw wythnos yn gynnar. Mae tad a mam Wil, Marged a Dan, yn cydnabod gyda diolch yr holl anrhegion a gyflwynwyd i Wil, ac yn amlwg mae Mam-gu a Taid Pentyrch,(Ann a Rhodri Jones) a Mam-gu a Tad-cu Beddau wrth eu boddau hefo'r aelod diweddaraf o'r teulu. Mae Wil eisioes wedi ymgartrefu yn ei dŷ newydd gyda'i fam a'i dad yn Nhreganna, Caerdydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Llio a Mark Ellis, Radyr, ar enedigaeth Gwen Mabli ddydd Mawrth, Ionawr 13 yn pwyso 6 phwys 9 owns. Mae ei chwaer fawr Catrin wrth ei bodd a Carol a Penri Williams yn Fam-gu a Thaid balch iawn.

Dymunwn yn dda i'r ddau deulu bach.

Ffarwelio
Dymunwn yn dda i Elenid Jones wrth iddi ymgartrefu ar eu haelwyd newydd yng Nghaerdydd. Byddwn yn gweld ei heisiau ond mae Iestyn, Owain ac Elan yn falch iawn bod Mam-gu yn byw yn nes atynt.

TONTEG

Gohebydd Lleol:
Gillian Williams

Croesawu Cymraes newydd
Croeso mawr i Eiri Gwen, babi cyntaf Dewi a Leah Rees a anwyd ar Ragfyr y degfed ar hugain. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r teulu sy'n byw yn Neyland Close.

Coginio trwy gyfrwng y Gymraeg
Bydd y cwrs diweddara cyfrwng Cymraeg yn dechre'r tymor yma yng Nghanolfan Gartholwg. Cwrs coginio gyda Luned Davies Scott. Ar y cychwyn bydd y dosbarth yn cwrdd ar ddydd Iau o 4 tan 6, ond cysylltwch a'r ganolfan am unrhyw newid yn ôl yr ymateb.

Penblwyddi
Bu'n gyfnod o ddathlu penblwyddi arbennig ym Maes y Sarn. Cyn y Nadolig 'roedd yn ddiwrnod arbennig i Judith Evans ac yna ddechrau mis Ionawr dathlodd Emlyn ac Ann Davies eu penblwyddi a hynny o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd.

Llongyfarchiadu i'r tri.

Dymuniadau Da
Dymunwn adferiad llwyr i Gareth Huws sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Da hefyd yw gweld bod Ken Jones wedi gwella wedi ei driniaeth yntau.

Y Plygain
Unwaith eto 'roedd Eglwys Sant Catwg yn llawn ar gyfer gwasanaeth Plygain Clwb y Dwrlyn ddechrau mis Ionawr. Arweiniwyd y cyfan yn ddeheuig gan Rhodri Gwynn Jones a braf oedd croesawu côr disgyblion Ysgol Pentyrch atom yn ogystal â chôr bach Ysgol Creigiau. 'Roedd yno naws arbennig wrth i'r gwahanol bartion a'r unigolion ganu yn eu tro. Casglwyd dros £300 tuag at elusennau'r Eglwys eleni, sef y Gymdeithas Macular a'r Silk Road Ministries sy'n helpu plant yn Cambodia.

Yna ymlaen i'r King's i groesawu'r Fari Lwyd i'n plith. Ac wrth gwrs fe gafodd y Fari fywiog groeso mawr.

Priodas
Ar ddiwrnod bendigedig o heulwen, ar Ragfyr y 29ain, fe briodwyd Lowri Glyn a Chris Warlow yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Y Parchedig R. Alun Evans oedd yn gweinyddu. Daeth teulu a ffrindiau o Ogledd Cymru a'r Gorllewin yn ogystal â dros y ffin yn Lloegr i ddathlu'r briodas. Cynhaliwyd y brecwast yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng nghanol Caerdydd. Drannoeth y briodas hedfanodd y ddau i Fadrid am ychydig ddyddiau cyn bwrw'n ôl i'r tresi yn eu gwaith y Llun canlynol. Roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy a fydd yn aros yn hir yng nghof y ddau deulu a'r ffrindiau.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
19 Chwefror 2015

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Sarah Vivian Hyfforddwraig parafeddygon

8yh Chwefror 11eg
Bethlehem, Gwaelod y Garth

MERCHED Y WAWR
Cangen Tonysguboriau

O Gymru i Batagonia gyda Walter Brooks
Chwefror 18fed
Y Pafiliwn, Tonysguboriau
Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

CLWB Y DWRLYN

Rifiw
8yh Nos Fawrth Chwefror 24
yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Cinio Gŵyl Dewi
12.30yp Prynhawn Sul
Mawrth 1af
yng Nghlwb Golff Creigiau

Manylion: 029 20890040

Eisteddfod y Dysgwyr 2015

7pm-9:30pm,
Nos Wener, 20 Mawrth,
Theatr Canolfan Gartholwg
Pentre'r Eglwys.
Mynediad: • £2

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT A'R CYLCH

Cinio Gŵyl Ddewi
Nos Wener, 6 Mawrth, 7yh
Clwb Golff Creigiau

Manylion: 01443 218077

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Llongyfarchiadau
Dymuniadau gorau i deulu bach yn Abertawe. Ganwyd merch fach, Cadi, yn ddiweddar i Siwan Brookes a'i phartner Rhodri. Mae Siwan yn optegydd yn yr ardal a Rhodri yn feddyg. Mae Siwan yn gyn ddisgybl Ysgolion Evan James a Rhydfelen. Mae 'n siŵr bod tad-cu Alun yn Nhrefforest wrth ei fodd a'i wyres gyntaf.

Merched y Wawr
Croeso cynnes i bawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn hon yn Festri Capel Sardis am 7.30 nos Iau, Chwefror 12fed. Y siaradwraig yw Lowri Cooke, Caerdydd.

Clwb Llyfrau
Byddwn yn cwrdd nos Fawrth, Chwefror 17eg am 8 o'r gloch i drafod y nofel enillodd wobr Booker llynedd sef 'The Narrow Road to the Deep North' gan Richard Flanigan.

Y cyfrolau dan sylw mis Mawrth yw 'Llanw' gan Manon Steffan Ross a 'Y Fro Dywyll' gan Jerry Hunter. Dewch i'w trafod yng Nghlwb y Bont nos Fawrth, Mawrth 17eg am 8.00p.m

Newyddion yr ardal
Bydde Jayne yn falch iawn o gyfraniadau gan ddarllenwyr cylch Pontypridd ar gyfer y golofn hon.
Cysylltwch â hi -
j.rees2012@btinternet.com

EISTEDDFOD YR URDD CAERFFILI 2015

Mae'r Pwyllgor Cerdd yn apelio am stiwardiaid / clerc ar gyfer rhagbrofion.

Mae gan y pwyllgor 64 cystadleuaeth, ac mae angen dau berson ar gyfer pob un!

Mae tri slot bob dydd:
7.45am. 9.45am ac ar ôl 11am - amserau gwahanol bob dydd

Mae gofyn i'r stiwardiaid / clerc fod yna rhyw chwarter awr cyn dechrau pob rhagbrawf.

Os oes gennych diddordeb cynorthwyo a wnewch chi e-bostio
pwyllgorcerdd@gmail.com

Bydd tocyn am ddim i'r maes i bawb a hefyd, y peth pwysica, tocyn bwyd!

Diolch o flaen llaw am eich help!

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon ar y Sul am 10:30 a.m.
Mis Chwefror 2015:

1af Oedfa Gymun dan ofal
y Parchedig. Dafydd Andrew Jones
8fed Y Parchg.Peter Dewi Richards
15fed Y Parchg. Cynwil Williams
22ain Oedfa Ardal – Gogledd a Dwyrain Caerdydd

Sut flwyddyn ydi hi wedi bod i chwi hyd yma tybed? Gawsoch chi'r ffliw fel cynifer ohonom? Sut flwyddyn ydach chi'n ei deisyf? Ydi'r addunedau wedi ei gwneud a'u torri? Be sy'n wahanol eleni?

Rhoi tŵls ar y bar fu hanes ein Gweinidog, y Parchedig R Alun Evans, wedi saith mlynedd o ofal caredig a gofalus ohonom.

Dyna yn wir fu testun ei gyfarchion ym Mwletin Bethlehem, a gyhoeddwyd ar ddechrau mis Rhagfyr 2014, gan ofyn :-

"Beth mai clerigwr yn ei wneud wrth ddod i ben y dalar? Rhoi ei goler gron ar astell y pulpud! Ymadrodd mwy ystyriol fyddai 'A'r wlad a gafodd lonydd.'

Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbryn-mair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla' i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na'r saith mlynedd ddiwethaf. Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig. I mi, mae'n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!"

Does dim dwywaith fod na le gwag ar ei ôl yn ein mysg fel Gweinidog, ond braf iawn ydi cael ei gwmni o Sul i Sul ar "y meinciau cefn" erbyn hyn.

Mae ein diolch yn fawr iddo am bopeth a gyflawnodd yn ein plith, heb anghofio cyfraniad Rhiannon a fu'n gefn, yn gymorth ac yn ysbrydoliaeth iddo trwy gydol yr amser.

Mae 'na ddigwyddiau erchyll wedi eu cyflawni yng nghysgod ac yn enw crefyddau mawr y byd yn wythnosau cynta'r flwyddyn newydd yma. 'Does dim angen i mi eich atgoffa ohonynt, a'r perygl affwysol y bydd mwy a mwy o ddigwyddiadau o'r fath yn debygol cyn y byddwn yn troi cefn ar Ragfyr y 31ain 2015.

Mae'r Cyfrifiad a gynhaliwyd yn 2011 yn edrych yn eithaf pell yn ol erbyn hyn i'r rhan fwyaf ohonom, ond 'rydym mwyach yn cael ein bwydo ag ystadegau gwahanol yn deillio o'r cyfrif.

Ychydig cyn y Nadolig rhyddhawyd gwybodaeth am grefydd yng ngwledydd Prydain.

Roedd y prif benawdau fel a ganlyn:-

Cristnogaeth	33 243 175 [59.3%]
Dim yn arddel crefydd	14 097 229 [25.1%]
Heb ymateb i'r cwestiwn	4 038 032 [7.2%]
Mwslemiaeth	2 706 066 [4.8%]
Hindwiaeth	816 633 [1.5%]
Siciaeth	423 158 [0.8%]
Iddewiaeth	263 346 [0.5%]
Bwdiaeth	247 743 [0.4%]
Crefyddau eraill	240 530 [0.4%]

Mae'n ddifyr ar un ystyr, yn galonogol hwyrach fod na o hyd ymlyniad gan 3 o bob 5 at Gristnogaeth, ond yn gymleth hefyd o sylweddoli fod 2 o bob 5 a golwg tra gwahanol ar bethau, ac 1 o bob 4 ddim yn arddel unrhyw grefydd.

Pam tybed fod 1 o bob 14 heb drafferthu i ymateb o gwbl?

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem

CROESAIR COL



I Lawr

1. Drygioni (5)
2. Mab i frawd neu chwaer (3)
3. Yn perthyn i'r Saeson (7)
4. Hynodrwydd (6)
5. Yn perthyn i'r môr (5)
6. Mesur barddonol (9)
7. Poen dant (7)
11. Arwystlo (9)
13. Ewin aderyn (7)
15. Dirwedd (7)
16. Glendid (6)
18. Neges fer ysgrifenedig (5)
20. Erfinen (5)
23. Mesur arbennig (3)

Ar Draws

1. Llysieuyn Gwyddelig (6)
5. Gorchudd i'r wyneb (5)
8. Ysbardun (9)
9. Byddwn ni'n mynd (3)
10. Tiriogaeth (5)
12. Dilyn (7)
13. Math o fad bach (6)
14. Yr olaf o dri (6)
17. Dulliau o siarad (7)
19. Heffer (5)
21. Asennau (3)
22. Creulon (9)
24. Cen, pil, rhisgl e.e (5)
25. Cŵn o dras cymysg (7)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 15 Chwefror 2015

Atebion Rhagfyr

		E		A		Y		P		E		
	S	G	O	D	A	S	G	L	O	D	S	
P	E	R		W		T		U		N	E	S
	F		C	Y	M	U	N	E	D		G	
C	Y	D	I	O		M		N	A	T	U	R
	D		S						N		R	
C	L	W	T	Y	N		B	Y	S	E	DD	U
	O		A						I		Y	
E	G	N	I	O		C		P	A	E	N	T
	I		D	E	F	O	D	O	L		I	
B	A	D		L		R		E		D	O	R
	D	E	W	I	S	DD	Y	N	I	O	N	
		G		O		I		I		L		

Ysgol Dolau

Lluniau Tudalen 13

Trawsgwlad
Bu plant Dolau yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau trawsgwlad yn ystod mis Rhagfyr. Aeth plant blwyddyn 5 a 6 draw i'r Ddraenen Wen lle ddaeth Hywel Leyshon yn ail, Ciaran Sibley Chessie Jarvis yn drydydd. Rhedodd y tîm yn wych hefyd yn rownd derfynol ysgolion RhCT lawr yn Leckwith, Caerdydd. Yn ystod rownd ddiweddaraf ysgolion Pen-y-bont perfformiad anhygoel unwaith eto oddi wrth Tianna Teisar a ddaeth yn gyntaf. Gwelom hefyd rhedwyr arbennig gyda Hywel Leyshon, Dylan Woolridge a Ciaran Sibley yn gorffen 2il, 3ydd a 5ed. Da iawn tîm Dolau.

Diwrnod Tuduraidd
Ddydd Mawrth, Rhagfyr 9fed, gwisgodd plant o flynyddoedd 5 a 6 o'r ddwy adran i fyny mewn gwisgoedd cyfnod y Tuduriaid er mwyn cymryd rhan mewn diwrnod thema Tuduriaid. Cafodd y plant amser gwych a chawsant ymweliad gan Meistr Richard o gyfnod y Tuduriaid a ddysgodd y disgyblion lawer am briodasau, yr ysgol ac arfau yn ystod amser y Tuduriaid. Dysgodd y disgyblion ddawns a chân o Oes y Tuduriaid a chawsant y cyfle i wneud Cristingl. Gorffenom y diwrnod mewn steil wrth gynnal gwledd frenhinol.

Gala Nofio'r Urdd
Dydd Iau 27ain o Dachwedd aeth 17 o blant i Bwll Nofio Ynysawdre ar gyfer Gala Nofio'r Urdd. Roedd y plant yn nofio yn hynod o dda gyda Elliot Donovan Davies yn ennill yn y dull rhydd a dull cefn gyda Paige Richardson yn ennill yn y broga. Fel tîm fe wnaeth y plant yn wych!

Jambori'r Urdd
Aeth plant blwyddyn 3 a 4 lawr i ganolfan y Mileniwm i fwynhau bore o hwyl a chanu yng nghwmni Mr Urdd. Roedd llawer o ganu, chwerthin a dawnsio lawr yn y Jambori!

Gŵyl Coed Nadolig Llantrisant
Buodd côr yr ysgol yn perfformio yng Ngŵyl Coed Nadolig Llantrisant unwaith eto ar ôl cymryd blwyddyn allan llynedd. Roedd hi'n hyfryd bod nôl mewn eglwys orlawn yn perfformio i'r trigolion lleol ynghyd â rhieni oedd wedi dod i gefnogi. Roedd yr eglwys yn llawn coed Nadolig prydferth, ond roedd coeden Dolau ar thema'r Rhyfel Byd Cyntaf yn sefyll allan.

Cyngerdd Cofio
Bu côr yr ysgol yn ddigon ffodus i dderbyn gwahoddiad i berfformio mewn cyngerdd Cofio a drefnwyd gan adran Llanharan o'r Lleng Prydeinig. Perfformiodd y côr ffefrynnau o gyfnod y rhyfeloedd byd yn cynnwys White Cliffs of Dover a Pack Up Your Troubles. Roedd y dorf wrth eu boddau a derbyniodd y côr gymeradwyaeth cynnes iawn.

Radio Dolau
Wedi iddynt dderbyn gweithdy gan gyflwynydd radio Radio Cymru, Marci G, mae Dosbarth 8 wedi bod yn hynod o brysur yn cynhyrchu a recordio rhaglenni eu hunain yn y dosbarth. Eu bwriad yw i'ch hysbysu am beth sy'n digwydd yng nghymuned yr ysgol yn rheolaidd. Gallwch glywed rhaglenni'r plant yn fyw neu ar yr adran 'Gwrando Eto' ar Cymru FM. Lawrlwythwch yr ap am ddim ar eich ffôn!

Ymweliadau â'r Llyfrgell
Fel rhan o Wythnos ddarllen, trefnwyd ymweliadau â Llyfrgell Pontyclun. Uchafbwynt yr ymweliad oedd darlleniad Mrs. Shirley Jaydee o'i barddoniaeth am 'George The Giraffe'. Roedd y plant yn hongian ar bob gair ac wedi mwynhau'r profiad y fawr iawn. Diolch yn fawr i staff y llyfrgell, Mrs. Jaydee ac i'r plant am eu hymddygiad clodwiw. Edrychwn ymlaen at ymweld â'r llyfrgell eto yn ystod y Gwanwyn.

Cyngherddau Nadolig
Ar Ragfyr yr 8fed a 9fed roedd plant y Meithrin a Derbyn yn brysur iawn yn ymuno yn ein Cyngerdd Carolau'r Nadolig. Dros yr wythnosau bu'r plant yn ymdrechu'n wych i ddysgu nifer o ganeuon newydd Y Nadolig. Bu'r plant hefyd yn mwynhau dweud wrth y gynulleidfa beth yn union oedd Nadolig yn golygu iddyn nhw, roedd yna lawer o sŵn chwerthin yn dod o'r gynulleidfa wrth iddyn nhw glywed yr atebion.

Fe wnaeth Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 berfformio cyngerdd Nadolig o'r enw 'Y Goeden Fach Hyfryd'. Mwynheuodd y plant wisgo gwisgoedd gwahanol gymeriadau fel anifeiliaid y goedwig, teganau, sêr, plu eira ac anifeiliaid y stabl. Fe wnaeth y plant canu yn arbennig ac roeddent yn gwenu o glust i glust o'r cychwyn!

Dathlodd plant Cyfnod Allweddol 2 y Nadolig gyda gwasanaeth carolau yn Eglwys y Bedyddwyr Bethel, Pontyclun. Roedd y gwasanaeth yn cofio Cadoediad Dydd Nadolig can mlynedd yn ôl ar gaeau rhyfel y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd y gynulleidfa eu hatgoffa o wir ystyr y Nadolig trwy farddoniaeth, darlleniadau, carolau a rhan o ddyddiadur milwr y rhyfel. Yn ogystal, perfformiodd y plant fersiwn eu hunain o gân Band Aid. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'r rhoddion a fydd yn cael eu rhannu rhwng yr eglwys a'r trychineb yng Ngorllewin Cymru.

Ymweliadau'r Nadolig
Aeth plant Derbyn i Barc Treftadaeth y Rhondda ar gyfer eu hymweliad Nadolig. Dechreuodd gydag un o gorachod Siôn Corn yn mynd a nhw lawr yn y lifft - roedd pawb yn gyffrous iawn wrth gyrraedd y gwaelod ac yna datrys posau ar gyfer dod o hyd i'r lle'r oedd Siôn Corn yn aros amdanyn nhw. Cafodd pawb hwyl ac roeddent i gyd wedi derbyn anrheg Nadolig cynnar!

Aeth plant y Feithrin i 'Rymbl yn y Jyngl' ar gyfer eu trip Nadolig ddydd Llun y 1af o Ragfyr. Cafodd pawb gyfle i fwynhau'r fframiau dringo a'r holl weithgareddau hwylus oedd ar gael. Yn fuan, roedd hi'n amser ymweliad gan Siôn Corn yn ei grotto.

Cystadleuaeth Pêl-droed
Cystadlodd y tîm pêl-droed yng nghystadleuaeth 'New Directions' yng Nghaerdydd. Cyrhaeddodd y tîm llawn hyder gyda'r gobaith o gyrraedd y rownd derfynol. Chwaraeodd y tîm 4 gêm yn dda. Yn anffodus colli tair ohonyn nhw wnaethon ond dim ond gan un gôl pob tro.

Panto Sinderela
Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 ddechrau nôl gwych yn dilyn gwyliau'r Nadolig gydag ymweliad i Gaerdydd i weld y panto, Sinderela. Roedd bron pob sedd ar y llawr gwaelod yn llawn gyda disgyblion o Dolau. Cawson hwyl gyda'u diodydd a losin wrth chwerthin a mwynhau'r sioe.

Cynllun SAFF
Mae blwyddyn 6 wrthi'n cymryd rhan yn y cynllun SAFF unwaith eto eleni gyda PC Daniels. Maent yn dysgu gwersi pwysig am beryglon cyffuriau.

Cystadleuaeth Pêl-rwyd
Aeth y tîm pêl-rwyd i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn Rhondda Fach. Chwaraeodd y tîm yn dda ond fel y tîm pêl-droed collon nhw dair gêm - cystadleuaeth gref iawn. Da iawn i'r merched am beidio rhoi'r ffidl yn y to a gwneud eu gorau ym mhob gêm.

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Lluniau Tudalen 13

Adroddiad Pêl-rwyd
Da iawn i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ddod yn ail yng ngystadleuaeth Sir yr Urdd! Dyma beth oedd gan y capten i ddweud am eu llwyddiant…
"Wel roedd hi'n ddiwrnod llawn cyffro i bob un ohonyn ni! Roedd pawb mor gyffrous i fynd a cael hwyl, ac i ddod i ffwrdd gyda ail roeddwn ni i gyd yn llawn hapusrwydd!! Roedden ni yn canu yr holl fordd yn ôl!!"
Lara Watts - Blwyddyn 6

Penwythnos Aberdâr
Cafodd blant y côr amser gwych yn Aberdâr yn ymarfer caneuon ac aros dros nos gyda'u ffrindiau. Diolch i Ms Williams am fod yn ffotograffydd y pen-wythnos, ac i'r staff am wirfoddoli i helpu.

Dyma ennillwyr cystadleuaeth gwrth-fwlio yr ysgol. Da iawn i Ethan Wells (Bl.2), Kitty Warman (Bl.2), Jenna Hill (Bl. 6) a Kara Bennet (Bl.4)

Aeth blant Blwyddyn 1 & 2 i ymweld â gorsaf dân yn Nhrefforest yn seiliedig ar eu gwaith am 'Dân Mawr Llundain'.

Ysgol Dolau

Gwasanaeth Carolau yn Bethel, Pontyclun

Mrs. Shirley Jaydee yn Llyfrgell Pontyclun

Y Côr yng Ngŵyl Llantrisant

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Tîm pêl-rwyd

Penwythnos Aberdâr

Yng ngorsaf dân Trefforest

Enillwyr cystadleuaeth gwrth-fwlio - Ethan Wells (Bl.2), Kitty Warman (Bl.2), Jenna Hill (Bl. 6) a Kara Bennet (Bl.4)

YSBYTY HOSPITAL

Th	E	M	N	A	T	U	D	U	R	W	G
O	R	O	H	L	A	N	J	O	G	W	B
W	C	Dd	T	Th	T	L	S	E	W	O	W
A	L	I	I	Ll	O	N	A	I	E	I	R
I	E	O	D	S	O	F	L	U	L	D	Dd
N	F	N	U	L	R	E	Y	G	Y	A	Y
F	Y	S	J	O	S	D	Ch	N	Y	R	S
A	D	O	T	I	Ch	W	Th	F	D	L	B
T	Ch	C	N	S	L	G	I	I	F	E	Y
S	O	E	D	A	I	L	N	Rh	A	N	T
D	L	G	S	L	O	N	N	E	T	W	Y
G	N	E	A	M	Y	R	A	E	C	I	P

~~ysbyty~~
Glenise
Tudur
radio
DJ Sal
pice ar y maen
gwely
Lois
moddion
doctor
Owain
nyrs
Anni
clefyd
salwch
Judith

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Dal Sownd
Yn ystod wythnos olaf Tachwedd, perfformiwyd sioe eleni, "Dal Sownd" dros 3 noson i gynulleidfaoedd llawn. Diolch a llongyfarchiadau i bawb a fu ynghlwm gyda'r cynhyrchiad. Dyma adroddiad gan un o'r cast, Charly Ann Brookman (Blwyddyn 13):

Roedd bod yn rhan o gynhyrchiad Dal Sownd yn wych! Fel disgybl yn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol roedd cael bod yn rhan o'r cynhyrchiad wedi helpu creu atgofion gwych gyda ffrindiau hen a newydd. Tra'n ymarfer cefais gyfle i gyd-weithio a chymdeithasu gyda disgyblion iau byswn i byth wedi siarad gyda nhw, oni bai am y cynhyrchiad. Cafwyd pedwar perfformiad pen i gamp, gan bawb, rhywbeth rwy'n siŵr fydd yn aros yn y cof am byth!

Cynhadledd Lefel A Bioleg
Ar 21ain o Dachwedd aeth disgyblion Bioleg Blwyddyn 13 i Gynhadledd Lefel A Bioleg yng Ngwesty'r Angel yng Nghaerdydd. Trefnwyd y diwrnod gan Fforwm Trawsffiniol De Ddwyrain Cymru. Roedd hwn yn gyfle i'r disgyblion i weithio ar y cyd gyda disgyblion o ysgolion Cymraeg arall De Ddwyrain Cymru. Dechreuodd y diwrnod gydag araith gan Dr Hefin Jones o Brifysgol Caerdydd yn sôn am yr holl gyfleoedd a gyrfaoedd sydd ar gael o fewn Bioleg. Yn ystod y dydd roedd tri sesiwn; Resbiradaeth - o dan ofal athrawon Glantaf a Phlasmawr, Homeostasis - o dan ofal athrawon Cwm Rhymni a Llangynwyd a'r System Nerfol - o dan ofal Miss Hannah Blunden ac athrawes o Lanhari. Adroddiad Miss Hannah Blunden
(Arweinydd Bioleg)

Llwyddiannau Chwaraeon
Llongyfarchiadau i'r disgyblion isod ar eu llwyddiant ym myd chwaraeon:
Mae Emily Poole (Blwyddyn.10) wedi cael ei dewis i fynychu tridiau o ymarfer yng Ngwersyll Hyfforddi Carfan Datblygu Pêl-droed Cenedlaethol Cymru Dan 15 oed. Hefyd, mae Brython Payne (Blwyddyn 13) wedi ei ddewis ar gyfer carfan Pêl-droed Cymru Dan 18. Gwelwyd llwyddiant ar y llawr ddawns hefyd gyda Darcy Cromwell (Blwyddyn 7) yn dod yn ail allan o 39 grŵp mewn cystadleuaeth dawnsio genedlaethol yn Blackpool yn ystod mis Ionawr.



Llongyfarchiadau i dîm rygbi Blwyddyn 9 wrth iddynt guro Ysgol Corpus Christi o 22 pwynt i 5 sy'n golygu ei bod wedi mynd ymlaen i'r 16 olaf yng Nghwpan Cymru! Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl-droed Blwyddyn 8 ar gyrraedd rownd yr 16 olaf yng Nghwpan Cymru.

Chwaraeon Rhynglysol 17-12-14
Cafwyd cystadlu brwd ymysg disgyblion Blynyddoedd 7-10 yn y cystadlaethau pêl–rwyd i Ferched a phêl-droed i Fechgyn. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan gan gynnwys y disgyblion a roddodd cynhorthwy dyfarnu. Diolch yn fawr i'r staff wnaeth helpu i wneud yn ddiwrnod llwyddiannus i gymaint o ddisgyblion.

Noson Garolau
Roedd y noson a gynhaliwyd ar Ragfyr y 15fed yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf yn wledd o ganu, darllen a pherfformio. Diolch i aelodau'r Capel, Staff, Llywodraethwyr,

Rhieni a disgyblion am eu cefnogaeth a'u cyfraniad i'r noson.

Ffair Nadolig
Diolch i Chloe Love Bl12 am gymryd lluniau o'i ffrindiau a nifer o'r staff!! Codwyd dros £700 tuag at elusennau lleol.

Cystadleuaeth Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg 2014-15
Llongyfarchiadau i Trystan Gruffydd (Blwyddyn 13) sydd wedi cyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth. Bydd ganddo stondin yn y "Big Bang Fair" yn yr NEC ym Mirmingham ym mis Mawrth. Pob dymuniad da Trystan!

Ffisegwyr yn FSG.
Ers mis Medi mae Blwyddyn 12 Ffiseg wedi bod yn cydweithio gyda pheirianwyr ifanc FSG Tool & Die, Llantrisant. Sefydlwyd FSG yn 1961, fel cwmni teuluol yn Llanilltud Faerdref cyn iddo dyfu'n rhy fawr i'r ffatri a'r gofynion trydanol yn ormod i'r grid trydanol lleol! Symudodd i Lantrisant yn 2007. Mae'r cwmni yn cynhyrchu'r peiriannau sy'n gwasgu, plygu a thoddi darnau plastig a metel i wneud e.e. holl botiau

Ysgol Pont-Sion-Norton (Tudalen 7)

Tîm Pêl-rwyd

Taith Hanesyddol

Carwyn Salmon

iogwrt Muller yn Ewrop, caniau diodydd a phaneli cabin Land Rover a Jaguar. Mae safon eu gwaith yn drachywir ac yn ennill busnes dros y byd.

Mae dau dîm wedi bod yn ceisio datrys problem glanhau offer er mwyn eu mesur i'r 3 micromedr agosaf (3 milfed o filimetr). Mae tîm 1 (Dafydd Roberts, James Baker, Sam Richards, Rhys Coxley a Brandon Corbett) wedi bod yn gweithio gyda phrentis (Sam Chung) ar gynllunio baddon uwchsain i lanhau'r malurion o'r offer. Mae tîm 2 (Owen Lloyd, Louie Sellwood, Adam Davies a Taran Bryant) wedi bod yn gweithio gyda phrentis (Lewis Railton) ar ddyfais debyg i beiriant golchi llestri sy'n hidlo ac ailgylchu'r hylif glanhau.

Cafodd y ddau dîm fudd mawr, ar y 15-17 o Ragfyr, yng ngweithdai Prifysgol De Cymru (Trefforest) wrth weithio gyda'r prentisiaid i gynhyrchu modelau o'u cynlluniau. Ymlaen yn awr i gyflwyno'r adroddiad ysgrifenedig ac i westy'r Celtic Manor i gynnal arddangosfa a gwneud cyflwyniad i banel o feirniaid o fyd addysg a diwydiant fel rhan o gystadleuaeth Cynllun Addysg Beirianneg Cymru, http://www.stemcymru.org.uk/cy/. Pob lwc i'r ddau dîm!

Adroddiad gan Mr Gareth Humphreys
(Arweinydd Ffiseg)

Gweithdy MATh RhCT
Ddydd Gwener y pumed o Ragfyr aeth naw ohonom ni i Brifysgol Morgannwg er mwyn cymryd rhan mewn llawer iawn o wahanol weithdai. Y math o weithdai roeddwn ni wedi mynychu oedd Mandarin, Techniquest, Mathemateg a llawer mwy. Y gweithdy roeddwn ni wedi eu mwynhau fwyaf oedd Mandarin oherwydd roedd e'n ddiddorol iawn. Roedd y dydd yn ddiddorol iawn a dysgon ni lawer iawn o sgiliau newydd fel sut i reoli arian, sgiliau ieithyddol, sgiliau cyflwyno ac rydym ni hefyd wedi datblygu ein sgiliau Mathemateg.

Adroddiad gan Lauren Goddard Bl 9

Ysgol Llanhari

Cân Rhifedd Blwyddyn 7&8
Bu cryn gyffro ar ddiwedd Tymor y Nadolig wrth inni lawnsio ein cân rhifedd a dechrau gwylio y nifer sydd wedi ei gweld ar youtube yn cynyddu. Erbyn hyn mae dros dair mil o bobl wedi mwynhau gweld talentau y criw. Ewch iwww.youtube.com/watch?v=9Eepn7mvOXs i gael cipolwg arni. Diolch i'r holl ddisgyblion a'r staff am eu hymroddiad gyda'r fenter gyffrous hon.

Dathlu'r Nadolig
Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr adran uwchradd yn Eglwys Gatholig Meisgyn eleni ac fe berfformiwyd dwy sioe Nadolig yn yr adran gynradd.'Pen-blwydd Hapus Iesu' oedd cyfraniad Dewi Draenog a Chadi Cwningen, ac 'Annest ac Alis yr Angylion' oedd sioe fodern Gwion Gwiwer a Lleucu Llwynog. Llongyfarchiadau i bob un o 3 i 19 oed a gyfrannodd a diolch i'r staff am eu hymrwymiad llwyr.

Cyfrannu at elusen
Bu'r disgyblion yn brysur yn casglu arian cyn y Nadolig i gefnogi elusennau. Cynhaliwyd diwrnod siwmperi Nadolig ar y 12fed o Ragfyr i godi arian ar gyfer 'Achub y Plant'. Cyfranwyd £357 at yr achos teilwng hwn gan ddisgyblion yr adran uwchradd. Yn Adran y Babanod, daeth pawb ynghyd i fwyta cinio Nadolig ar yr 16eg. Diolch i Mrs Gaines a'i staff am goginio pryd bwyd ysblennydd ac fe lwyddwyd i gasglu £65 ar gyfer elusen Achub y Plant.

Ar ddiwedd mis Tachwedd, llwyddodd ein prif ferch Rhiannon Williams i rwyfo 24 milltir a chodi £283 tuag at elusen cancr y prostad mewn marathon rhwyfo a drefnwyd gan Westy'r Fro yn Hensol. Da iawn ti Rhiannon!

Yr Elyrch a'r Gweilch
Llongyfarchiadau gwresog i Dylan Edwards o 7F sydd wedi arwyddo i chwarae i academi clwb Pêl-droed Abertawe.

Ym myd y bêl hirgron, mae Joseph Davies o fl13 hefyd yn anelu i'r Gorllewin ac wedi ennill ei le yng ngharfan dan 18oed y Gweilch. Llongyfarchiadau!

Ymweliad Blwyddyn 8 â Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Mwynhaodd blwyddyn 8 gwrs preswyl yng Ngwersyll yr Urdd ar ddechrau mis Rhagfyr. Dyma argraffiadau un o'r disgyblion.

Dechreuodd yr awyrgylch o gyffro trwy gario'n cesys at y bws, canodd pawb fel un ar hwnnw yr holl ffordd. Ar ôl cyrraedd y gwersyll, dilynon gyfarwyddiadau Steffan Jenkins (Pennaeth Llangrannog). Aethom i'n hystafelloedd, dewis ein gwelyau, dadbacio ac ymgynnull yn y neuadd i gael gwybod am y nifer helaeth o weithgareddau am y pedwar diwrnod nesaf. Mae'n rhaid imi ddweud, roedd ein brecwast, cinio, te a swper yn Llangrannog yn hyfryd! Ar ôl ein cinio cyntaf

yno, es i a'r grŵp ar y "cwods" a'r rhaffau isel. Baswn yn bersonol wedi bodloni ar reidio'r "cwods" am weddill fy oes. Swper oedd nesaf ar ôl diwrnod cyffrous cyn mwynhau gweithgareddau a drefnwyd gan y chweched.

Dihunodd pawb yn fore yn flinedig ond yn llawn cynnwrf am y diwrnod oedd o'n blaen. Y rhaffau uchel yn gyntaf, yna'r wal ddringo tan amser cinio. Pob munud sbar oedd gennym, byddem un ai'n chwatrae pêl droed neu'n cael gêm o snwcer. Cyn swper aethom i farchogaeth a neidio bynji gyda pawb yn meistroli y "fflips". Her y noson oedd paratoi sioe ddoniol o ddeg munud ar gyfer y noson lawen. Ar ein trydydd diwrnod yn Llangrannog, roedd cyfle i nofio, sgio, gwib-gartio a cherdded i'r traeth yn y prynhawn. Gyda'r nos, cawsom gyfle i berfformio yn y noson lawen a mwynhau disgo.

Erbyn iddi gyrraedd Dydd Gwener, doedd neb eisiau gadael. Er y tristwch bwrodd pawb ati â'r gweithgareddau yn hapus! Diolch i'r holl athrawon ac aelodau'r chweched am fynd â ni i Langrannog.

Llew Jones 8H.

Teithiau Nadolig
Diolch i'r athrawon am drefnu dau weithgaredd cyffrous i blant y cyfnod Sylfaen cyn y Nadolig. Teithiodd disgyblion y Feithrinfa a'r Derbyn ar drên stêm eleni i weld Siôn Corn yn ei groto yn Aberhonddu! Roedd y golygfeydd yn wefreiddiol a braf oedd clywed cyffro'r plant wrth iddynt agosáu i gopa'r mynydd. Arhosodd y plant yn amyneddgar i weld Sion Corn a chafodd bob un anrheg arbennig ganddo!

Aeth disgyblion Blwyddyn 1 a 2 i weld sioe Nadolig Martin Geraint ym Mhorthcawl eleni, 'Pws Mewn Bŵts'! Roedden nhw wrth eu boddau yn chwerthin ar y

cymeriadau ac wrth weld dŵr yn cael ei dasgu atynyt! Yr uchafbwynt oedd pan gerddodd Martyn Geraint ymysg y gynulleidfa i ddweud 'helo'! Tro disgyblion blwyddyn 7 oedd hi i fwynhau panto ym mis Ionawr ac fe deithiodd disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 i'r Coed Duon i fwynhau llond gwlad o chwerthin a chanu wrth weld y panto Patagonia.

Ymweliad y Peasants King
Braf iawn oedd croesawu y grwp lleol o gyn-ddisgyblion Ysgol Gartholwg yma i ddiddanu y disgyblion ar fore olaf Tymor y Nadolig. Bu'n gychwyn da a bywiog i'r gwyliau!

Clwb Dawnsio Gwerin
Mae clwb dawnsio gwerin wedi bod yn hynod o lwyddiannus ymysg disgyblion blwyddyn 1 a 2. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi mynychu'r clwb a mwynhau perfformio o flaen cynulleidfaoedd. Bwriadwn barhau â'r dawnsio yn ystod y tymor hwn hefyd. Diolch yn fawr i Mrs Eiry Palfrey am ddod i'r ysgol i'n dysgu ni!

Diolch Mrs McDonagh a chroeso i Miss Cichocki
Rydym wedi bod yn ffodus iawn i groesawu Mrs Anadele McDonagh o'r sir i gynnal sesiynau iaith gyda phlant y cyfnod sylfaen. Maent wedi bod wrth eu boddau yn dysgu geiriau clod ac yn ymarfer ateb cwestiynau yn gywir! Croeso mawr i Miss Stephanie Cichocki, sydd yn gyn-ddigybl o Ysgol Llanhari i'r Adran Gynradd. Mae Miss Cichocki yn dilyn cwrs CACHE yng Ngholeg Pen-y-bont ac fe fydd yn treulio amser yn nosbarth Gwion Gwiwer gyda disgyblion blwyddyn 1.

Cystadleuaeth Canwr y Rotari
Ar ddechrau mis Rhagfyr, enillodd Owain Ellis gystadleuaeth Canwr y Rotari ac fe ddymunwn yn dda iddo yn y rownd nesaf. Yn yr un gystadleuaeth i gerddorion, canmolwyd ymdrechion a thalent ei chwaer Beca o flwyddyn 10 ac Alys John o flwyddyn 11. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.

Beca, Owain ac Alys

Clwb Rygbi Pontypridd

Mae Pontypridd wedi symud mewn i'r flwyddyn newydd mewn sefyllfa gref, yn parhau ar frig Uwch-adran y Principality ac yn dal i ymgyrchu yng Nghwpan SWALEC a Chwpan Prydain ac Iwerddon.

Hyd ganol Ionawr Ponty oedd yr unig dîm i gynnal record 100% yn yr Uwch-adran, wedi chwarae 12 ac ennill 12. Roedd hynny yn ddigon i gadw eu safle ar frig y tabl, hynny er gwaetha'r anffawd o gael eu tocio bedwar pwynt gan yr Undeb fel cosb am enwi chwaraewr heb ei gofrestru mewn gêm flaenorol.

Mae'r frwydr am goron y gynghrair yn argoeli i fod yn un hynod o glos, gyda'r newydd ddyfodiaid Glyn Ebwy yn herio Pontypridd bob cam o'r ffordd hyd yn hyn.

Glyn Ebwy hefyd fydd gwrthwynebwyr nesaf Ponty yng Nghwpan SWALEC. Yn amddiffyn eu statws fel deiliaid y Cwpan, cafodd Ponty gêm anodd adref yn erbyn Bargoed yn y rownd gyntaf, ac wedi ennill o 41pt i 13, yn wynebu'r her o deithio i Lyn Ebwy ddiwedd mis Chwefror yn yr ail rownd.

Mae Pontypridd hefyd wedi gwneud cryn argraff yng Nghwpan Prydain ac Iwerddon, ac wedi llwyddo i symud mlaen i rownd go-gyn-derfynol y gystadleuaeth i wynebu'r cewri o Loegr, Caerwrangon (Worcester). Cafwyd buddugoliaethau clodwiw yn y grwp rhagbrofol, gartref ac oddi cartref yn erbyn timau proffesiynol Albanwyr Llundain a Connacht, ac er gwaethaf colli ddwywaith i Fryste, roedd digon o bwyntiau wedi eu cynhaeafu i ennill lle yn rownd y chwarteri.

Mae nifer o sialensiau yn wynebu'r garfan, ac anodd yw ymdopi â'r sefyllfa unwaith eto o golli hyfforddwr o fri wrth i Geraint Lewis symud ymlaen i gymryd swydd lawn amser gydag Undeb Rygbi Cymru. Yn dal i herio mewn tair cystadleuaeth, ac yn anelu i chwarae rygbi ymosodol a chyffrous, mae Pontypridd unwaith eto yn llygadu diweddglo cyffrous a llwyddiannus i'r tymor hwn.

I gadw mewn cysylltiad â Chlwb Rygbi Pontypridd, yr holl ddatblygiadau a'r newyddion, galwch mewn i wefan y clwb: www.ponty.net Mae croeso i bawb yno.

Ysgol Tonyrefail

Creu Ceir Llusg

Ffair Nadolig